

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 23 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Awdur yr adroddiad Tim Towers, Rheolwr Asedau Priffyrdd a Risg

Teitl Pont Llannerch

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Phont Llannerch, sydd wedi ei lleoli rhwng Trefnant a Thremeirchion ac a gollwyd ym mis Ionawr 2021 yn ystod storm Christoph.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I geisio cael cefnogaeth mewn egwyddor gan y Cabinet ar gyfer gosod pont newydd yn ei lle, yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny. Fe fydd cefnogaeth o'r fath mewn egwyddor yn galluogi Swyddogion i geisio cyllid i fynd ymlaen â'r potensial o osod pont newydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Fod y Cabinet yn cadarnhau cefnogaeth i'r egwyddor o osod pont newydd yn lle'r bont, yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyllid allanol.

4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

4.1. Cyn Storm Christoph roedd Pont Llannerch yn ffurfio rhan o lwybr a ddefnyddiwyd yn helaeth. Mae dyfeisiau cyfrif traffig yn dangos ei bod wedi ei defnyddio gan tua 1,600

o gerbydau ar gyfartaledd bob dydd. Mae'r ffigyrau defnydd uchel hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod y bont yn cael ei defnyddio gan draffig lleol a oedd yn ceisio osgoi Llanelwy ar y ffordd i / o'r A55.

- 4.2. Roedd y bont nid yn unig yn ffurfio cyswllt pwysig ar gyfer y cymunedau yn yr ardal, ond roedd hefyd yn cael ei gwerthfawrogi gan nifer o bobl o ganlyniad i'w siâp a oedd bron yn unigryw, ei chyfluniad a'i gwaith carreg, a'i bod yn strwythur rhestredig.
- 4.3. Ers i'r bont ddymchwel mae swyddogion wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorwyr i ystyried beth allai fod yn bosibl yn nhermau gosod pont newydd yn ei lle a hefyd faint fyddai hyn yn ei gostio. Yr arwyddion cynnar yw y byddai pont newydd yn lle'r bont yn costio rhwng £6miliwn a £7miliwn. Mae'n debygol y byddai angen i elfen sylweddol o hwn (hyd at £1miliwn) gael ei wario yn y cyfnod cyn adeiladu i gynnal gwaith fel ymchwiliad tir, modelu afon, caffael tir a dyluniad manwl.
- 4.4. Mae hwn yn amlwg yn ymrwymiad sylweddol o ran cyfalaf i'r Cyngor ac ystyrir y dylid cymryd camau i geisio cyllid allanol, yn arbennig cysylltu â Llywodraeth Cymru. Cyn cysylltu fe allai fod werth i'r cyngor ymgymryd â pheth gwaith paratoi er mwyn datblygu achos busnes mwy cadarn, ac felly cynyddu'r potensial o ddenu cyllid allanol.
- 4.5. Er mwyn casglu tystiolaeth o ba mor bwysig yw'r bont/ffordd i'r gymuned, rydym yn ddiweddar wedi cynnal ymarfer ymgysylltu cyhoeddus i geisio cael safbwyntiau preswylwyr a defnyddwyr. Cynhaliwyd hwn dros gyfnod o bum wythnos a ddaeth i ben ar 25 Hydref 2021. Roedd ffurf yr ymarfer wedi ei ddylunio i ganfod beth oedd teimladau pobl am y bont a beth oedd bwysicaf iddynt yn nhermau cael un arall o bosibl yn ei lle.
- 4.6. Cafwyd ymateb sylweddol i'r arolwg gyda 750 o bobl/sefydliadau yn ymateb, sy'n dangos fod hwn yn fater pwysig iawn yn y gymuned leol. Fe ddaeth chwarter yr ymatebion gan breswylwyr yn Nhremeirchion; roedd chwarter arall gan y rhai sy'n byw yn Nhrefnant; ac roedd y gweddill o'r gymuned ehangach.
- 4.7. Er nad oedd yn gwestiwn penodol yn yr arolwg, fe wnaeth bron i 100 o bobl yr ymdrech i ysgrifennu sylw i'r perwyl y dylai pont newydd gael ei chodi yn lle'r bont cyn gynted â phosibl, sy'n cefnogi'r safbwynt ei bod yn gyswllt lleol hanfodol i'r gymuned.

- 4.8. Y brif neges a ddeuai yn ôl o'r arolwg yw bod y gymuned eisïau i ni osod pont newydd yn lle'r bont a gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Roedd naw deg pump y cant o'r ymatebwyr eisïau i bont newydd gael ei gosod yn lle'r bont, ond nid yw hyn efallai yn syndod o ystyried fod 93% o ymatebwyr Tremeirchion yn defnyddio'r bont yn wythnosol o leiaf ac roedd 65% o'r holl breswylwyr eraill hefyd yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r bont. Rydym yn parhau i ddadansoddi'r data yn nhermau safbwyntiau pobl ar sut ddylai'r bont newydd edrych yn eu barn nhw.
- 4.9. Fe fydd gosod pont newydd yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid perthnasol, a fydd yn cymryd amser. Os gellir sicrhau'r cyllid, fe fydd darparu'r bont newydd yn brosiect cymhleth a fydd yn cymryd llawer o amser.
- 4.10. O ystyried fod y bont yn cael ei defnyddio'n helaeth a hynny yn ddyddiol, ac o ystyried cyfanswm/natur yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd gan y gymuned, fe fyddai'n ymddangos yn rhesymol i'r cyngor geisio cael y cyllid allanol angenrheidiol i adfer y ffordd drwy ailadeiladu pont yn y lleoliad hwn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Byddai prosiect i osod pont newydd yn lle'r bont yn cefnogi Blaenoriaeth Gorfforaethol bresennol y cyngor i wella cysylltedd rhwng cymunedau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Fel y nodwyd yn gynharach, mae gosod pont newydd yn lle'r bont yn debygol o gostio rhwng £6miliwn a £7miliwn i gyd. Fe fydd felly yn bwysig i ddatblygu achos busnes cadarn i gynorthwyo i geisio'r cyllid allanol angenrheidiol ar gyfer y prosiect. Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar wasanaethau eraill y cyngor, er y bydd angen ychydig o gefnogaeth gan Cymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid i sicrhau fod cyfathrebu gyda'n cymunedau yn briodol ac effeithiol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Nid yw Asesiad o'r Effaith ar Les wedi ei gynnal eto, ond bydd yn ffurfio rhan o'r gwaith pellach i ddatblygu'r achos busnes a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unrhyw gynigion am gyllid allanol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Yn ychwanegol at yr ymarfer ymgysylltu cyhoeddus, a drafodwyd yn adran 4 yr adroddiad hwn, mae trafodaethau anffurfiol wedi eu cynnal gydag Aelodau Ward lleol a budd-ddeiliaid statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw. Mae'r mater ar y rhaglen ar gyfer Grŵp Ardal Aelodau Elwy ar 2 Rhagfyr 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd y prosiect cyfan yn costio £6-7m. Fodd bynnag, dylid nodi mai amcangyfrifon cychwynnol yw'r rhain wedi eu darparu gan ffynhonnell allanol ac fe allant newid. Byddai tua £1m o'r gost hwnnw yn ymwneud â'r cyfnod cyn adeiladu fel y nodwyd yn adran 4. Mae'n bwysig fod unrhyw ymrwymiad tuag at wariant a'r dull caffael yn mynd trwy brosesau'r Cyngor fel y cytunwyd. Byddai angen i'r Cabinet gymeradwyo unrhyw ymrwymiad yn ystod y flwyddyn o ran cronfeydd y Cyngor.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae yna risg na fydd y cyngor yn gallu denu cyllid allanol ar gyfer y prosiect. Fe ellir cynyddu'r siawns o ddenu cyllid allanol drwy wneud gwaith pellach (e.e. ymchwiliad tir, modelu, dichonoldeb ayb) er mwyn datblygu achos busnes mwy cadarn.
- 10.2. Mae yna risg y bydd enw da y cyngor yn cael ei effeithio os yw'r ymdrechion i sicrhau cyllid allanol yn estynedig neu os ydynt yn aflwyddiannus. Gellir lliniaru hyn drwy gyfathrebu yn glir ac effeithiol gyda'n cymunedau i sicrhau fod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i breswylwyr ynglŷn â'r camau rydym yn eu cymryd i fynd ymlaen â'r mater hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Mae swyddogaethau awdurdod priffyrdd y Cyngor yn gyfrifoldeb ar y Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.